

COMISIWN ARDAL GYHOEDDUS, Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi Machynlleth

Un Taliad o £2,000

‘Ffydd Gobaith Cariad’ / ‘Faith Hope Love’

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) yn chwilio am Ddarlunydd, dylunydd graffig neu Artist a all gynhyrchu gwaith celf cyhoeddus dau ddimensiwn ar gyfer y brif fynedfa yn Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi, Prosiect Iechyd a Llesiant, Machynlleth. Bydd angen i'r gwaith celf gynnig amgylchedd croesawgar a fydd yn cael ei fwynhau gan oedolion, plant a theuluoedd o bob cefndir am flynyddoedd i ddod. Oherwydd y gofynion glanhau o fewn lleoliad gofal iechyd, bydd angen daprau'r dyluniad fel ffeil ddigidol eglur iawn y gellir ei drosglwyddo ar finyl a'i dorri gyda laser cyn ei roi ar y wal.

Bydd y gwaith celf yn cael ei roi ar 1 wal yn y fynedfa sy'n mesur 4393mm(W) x 2500mm(H)

Machynlleth

Wedi'i lleoli o fewn dyffryn hardd Dyfi, mae Machynlleth yn dref farchnad boblogaidd gyda threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a thirwedd ddramatig.

Mae Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi, fel tref yn llawn hanes diddorol. Gwreiddiwyd y cyfleuster yn Wyrwys Undeb Machynlleth a agorodd ym 1860. Ar ôl gwasanaethu fel Ysbyty'r Groes Goch yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, cafodd ei droi'n ysbyty ar gyfer cleifion twbercwlosis, gan ailagor fel Ysbyty Coffa'r Brenin Edward VII yn 1920. Ymunodd yr ysbyty â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol fel Ysbyty Cist Machynlleth yn 1948 a esblygodd wedyn i fod yn ysbyty cymunedol.

Rydym yn chwilio am artist/dylunydd y bydd ei waith yn ategu harddwch ein hamgylchfyd. Mae themâu cynaliadwyedd amgylcheddol a dathlu ein cymuned a'n treftadaeth wrth wraidd y comisiwn hwn. Bydd yn rhaid i'r artist arddangos sut maen nhw'n bwriadu creu eu dyluniadau. Mae'r ardal yn weladwy o'r brif fynedfa a bydd y gwaith celf yn nodwedd allweddol sy'n croesawu ymwelwyr i'r ysbyty ac yn cynnig ysbaid cadarnhaol i bobl sy'n defnyddio'r ardal aros.


- Anogir ceisiadau gan artistiaid/dylunwyr Cymreig a'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.
- Anogir ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Bydd ceisiadau gan artistiaid unigol neu grwpiau'n cael eu derbyn ond bydd yr un taliad sengl yn berthnasol.

Bydd cynlluniau'n cael eu cwblhau mewn ymgynghoriad â BIAP. Rhaid cwblhau a gosod y gwaith erbyn Rhagfyr 2022.

Bydd y comisiwn yn cynnwys:

- Un darn o waith celf mewnol a fydd yn gwella prif fynedfa/ardal aros Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi. Dimensiynau tua 4393mm o hyd x gydag uchder y nenfwd o 2500mm


Lleoliad: Oddi ar yr A489, Heol Maengwyn, Machynlleth SY20




Ffig 1. Lleoliad y safle




Ffig 2. Delwedd o'r Brif Fynedfa



Ffig 3. Lleoliad y darn o gelf



Ffig 4. Dyluniad ar y wal



Ffig 5. Cynnig dyluniad mewnol



Ffig 6. Delwedd o'r Brif Fynedfa

Taliad: Bydd y taliad yn cael ei wneud mewn 2 rhandaliad. £1000 ar arwyddo'r cytundeb a £1000 ar gwblhau'r prosiect yn foddhaol.

Dylai'r cyflwyniadau gynnwys:

1. Datganiad byr am eich celf neu eich ymarfer hyd yma. Efallai yr hoffech siarad am eich agwedd at eich ymarfer, neu brosiectau'r gorffennol rydych chi wedi bod yn rhan ohonynt. (cyfanswm o 300 gair)

2. Cynnig byr gan gynnwys delwedd ffug neu ddrafft dyluniad /syniad o ddyluniad ar gyfer y darn o waith. Dywedwch wrthym pam yr hoffech gymryd rhan yn y cyfle hwn a beth all eich darn o waith gyflwyno i'r prosiect. Dywedwch wrthym pam yr hoffech gymryd rhan yn y cyfle hwn? Beth sy'n eich cyffroi a'ch diddori am y cyfle, a sut rydych chi'n bwriadu cyflawni'r gwaith y gofynnwyd amdano? Disgwylir i'r artist cynnig llun i'r comisiynydd mewn fformat y gellir ei ddefnyddio i gynhyrchu print eglur. (cyfanswm o 1500 gair)

(Sylwch y byddwn hefyd yn derbyn ceisiadau Fideo a Sain dim hwy na 5 munud)

3. Hyd at 8 delwedd o waith perthnasol blaenorol ar ffurf JPEGs o ansawdd uchel ddim mwy na 1MB. Rhowch restr o weithiau fel dogfen Word neu ffeili PDF gyda theitl fel a ganlyn 'EICHENW_ENW'RGWAITH_DYDDIAD'

4. CV cyfredol gyda chyflawniadau allweddol.

Sut i wneud cais:

Dylai partïon â diddordeb gyflwyno cynnig erbyn 10 Hydref 2022

Ar gyfer ymholiadau e-bostiwrch: steffan@orioldavies.org

Cynhelir cyfweiliadau ym mis Hydref 2022 (W/b 17 Hydref i'w gadarnhau)

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 10 Hydref 2022

Dyddiad cychwyn: 24 Hydref 2022

Cwblhau (nad oes modd ei drafod): mis Rhagfyr 2022

Gwnewch gais trwy e-bost: projects@orioldavies.org

Prosiect a reolir gan Oriel Davies Gallery ar ran:



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government